**Ymchwiliad Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd Cynulliad Cenedlaethol**
**WFG 63**
**Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)**
**Ymateb gan Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

# Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru)

**Ymateb Cymdeithas yr Iaith Gymraeg**

Rydym yn cefnogi'r ymgyrch i gael Bil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol cryf, sy'n gwneud y Gymraeg yn ganolog i'r agenda cynaliadwyedd.

**Crynodeb**

Hoffem weld y Bil yn cael ei gryfhau drwy:

- Sôn am y Gymraeg yn y diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yn ogystal â'r 'bwriad cyffredin' - hynny yw adrannau 2 a 3 y Bil
- Ychwanegu sôn am 'gymunedau Cymraeg' yn y nodau llesiant
- Ychwanegu targedau i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr
- Gosod dyletswydd gref ar gyrff cyhoeddus i anelu at gyflawni datblygiad cynaliadwy ym mhopeth maen nhw'n ei wneud
- Ychwanegu diffiniad clir o'r hyn a olygir gan ddatblygiad cynaliadwy
- Ystyried yn iawn yr effaith y mae Cymru yn ei chael ar bobl a'r amgylchedd dramor
- Cynyddu pwerau'r Comisiynydd a gwneud y rôl yn atebol i Aelodau'r Cynulliad yn hytrach na Gweinidogion Cymru

**Y Gymraeg fel un o'r nodau**

Rydym wedi croesawu'r ffaith bod y Llywodraeth wedi cynnwys yr iaith Gymraeg yn y nodau llesiant. Fodd bynnag, credwn y byddai'r geiriad hwn yn well o ran y nod sy'n ymwneud â'r Gymraeg:

> *"Cymru lle bo pobl yn cymryd rhan yn ein diwylliannau, sy'n perthyn i ni i gyd, sef lle y mae'r Gymraeg yn ffynnu yn ein cymunedau"*

Credwn fod angen cydnabod yn y nodau bod y Gymraeg yn berthnasol i holl gymunedau a diwylliannau Cymru.

Dangosodd canlyniadau'r Cyfrifiad diweddaraf dirywiad dychrynllyd yn nifer siaradwyr y Gymraeg a nifer y cymunedau lle mai'r Gymraeg yw prif iaith y gymuned. Felly, credwn fod angen i'r nod cyfeirio at le'r Gymraeg yn ein holl gymunedau ledled y wlad.

O ran y nodau eraill, cytunwn â barn Cynghrair y Trydydd Sector ar ddatblygu cynaliadwy, sy'n dadlau dros nodau canlynol:

> "Cymru...
> (a) llewyrchus ac arloesol;
> (b) gyda chymdeithas gref, iach a chyfiawn;
> (c) sy'n defnyddio ei chyfran deg o adnoddau'r byd yn unig;
> (ch) sy'n byw o fewn terfynau amgylcheddol;

(d) lle bo pobl yn cymryd rhan yn ein diwylliannau, sy'n perthyn i ni i gyd, sef lle y mae'r Gymraeg yn ffynnu yn ein cymunedau; a
(dd) gydag amgylchedd naturiol gwydn a bioamrywiaethol"

**Y Gymraeg yn niffiniad y Bil, nid y nodau'n unig**

Nodwn ymrwymiad clir, personol y Gweinidog, a wnaed i bwyllgor Amgylchedd y Cynulliad, i sicrhau bod y Gymraeg yn rhan o'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy ym Mil Cenedlaethau'r Dyfodol, nid y nodau yn unig. Testun siom felly yw gweld bod y Llywodraeth wedi torri'r addewid hwnnw.

Nodwn ymhellach fod y Comisiynydd Dyfodol Cynaliadwy Peter Davies wedi galw ar i'r Gymraeg fod yn y diffiniad o ddatblygu cynaliadwy yn y Bil. Nodwn fod rhai wedi galw am ddiben statudol i'r Bil Cynllunio sydd ond yn cyfeirio at 'ddatblygu cynaliadwy' fel diben y drefn honno. Os dyna fydd penderfyniad y Llywodraeth ynghylch y Bil Cynllunio, mae'n golygu ei fod yn hanfodol bod y Gymraeg yn rhan o'r diffiniad o ddatblygu cynaliadwy ym Mil Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - hynny yw adrannau 2 a 3 y Bil - yn ogystal â bod yn un o'r nodau llesiant yn y Bil.

**Gwendidau Presennol Eraill y Bil**

- **Diffyg sôn am y Gymraeg yn y diffiniad yn ogystal â'r 'bwriad cyffredin' datblygu cynaliadwy.** Credwn y dylid cynnwys pedwar piler cynaliadwyedd yn y bwriad cyffredin - cynaliadwyedd economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Dylai fod sôn am y Gymraeg yn niffiniad Bruntland yn ogystal - hynny yw adrannau 2 a 3 y Bil.

- **Nid oes yna ddyletswydd gref ar gyrff y sector cyhoeddus i newid y ffordd maen nhw'n ymddwyn neu i roi blaenoriaeth go iawn i genedlaethau'r dyfodol.** Rydym eisiau gweld dyletswydd yn cael ei rhoi ar gyrff cyhoeddus i "arfer eu swyddogaethau er mwyn sicrhau datblygu cynaliadwy". Mae'n rhaid nodi'n glir hefyd fod y ddyletswydd hon yn berthnasol i gynnyrch a gwasanaethau sy'n cael eu prynu gan y cyrff hyn.

- **Nid yw'r nodau'n cyfeirio at newid yn yr hinsawdd a'r angen i Gymru gynaliadwy leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.** Dylai'r Bil fanteisio ar y cyfle i osod targedau allyriadau ar sail ddeddfwriaethol.

- **O fewn Cymru yn unig mae'r Bil yn ystyried datblygu cynaliadwy.** Nid yw'n ystyried gweithredoedd cadarnhaol neu negyddol gan gyrff cyhoeddus sy'n cael effaith ar wledydd eraill, fel prynu cynnyrch masnach deg neu brynu pren o fforestydd glaw sydd dan fygythiad. Dylai'r Bil nodi'n glir mai dim ond ei chyfran deg o adnoddau'r byd y dylai Cymru gynaliadwy ei defnyddio, ac na ddylai arian y trethdalwyr gael ei ddefnyddio i gefnogi dinistrio cynefinoedd neu achosion o gam-drin hawliau dynol dramor.

- **Mae rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn rhy wan.** Dylai'r rôl gael ei chryfhau i gynnwys pwerau i ymchwilio i gwynion, mynnu tystiolaeth a beirniadu cyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, os ydynt yn methu yn eu dyletswydd. Felly, mae angen i'r Comisiynydd gael ei benodi, a bod yn atebol i, y Cynulliad Cenedlaethol yn ei gyfanrwydd, ac nid Gweinidogion Llywodraeth Cymru'n unig.

- **Nid yw'r Bil yn rhoi diffiniad clir o ddatblygu cynaliadwy.** Rydym angen diffiniad o ddatblygu cynaliadwy i Gymru sy'n cynnwys uchelgais i gyflawni cyfiawnder cymdeithasol o fewn terfynau amgylcheddol yng nghyd-destun diwylliannol Cymru.

Robin Farrar,
Cadeirydd, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg

Medi 2014